



Portal

Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth | Training & Consultancy

Prosbectws 2022/23

EIN STORI

Sefydlwyd Portal yn 2010 ac, ers hynny, rydym wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu hyfforddiant dwyieithog deinamig ac arloesol, er mwyn cefnogi sefydliadau gyda'u strategaethau i ddatblygu gallu eu gweithlu.

Rydym yn darparu cymwysterau ar lefelau 2, 3, 4, 5 a 7, ac mae gennym brofiad o gefnogi datblygiad proffesiynol mewn ystod eang o rolau, o'r rheiny sy'n newydd i'w swyddi i'r rheiny sy'n uwch-arweinwyr profiadol. Ar hyn o bryd mae dros 500 o ddysgwyr gennym yn dilyn ein rhaglenni Prentisiaeth a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru.

Mae Portal yn ymfalchïo mewn darparu cefnogaeth sydd wedi ei theilwra i anghenion ein dysgwyr a sicrhau perthnasoedd adeiladol cadarn gyda'n holl gyflogwyr. Rydym yn gwrandao ar anghenion yr unigolion a'r sefydliad er mwyn cynnig cymwysterau a fydd yn caniatáu i'r ddau gyd-dyfu'n hapus a chryf, law yn llaw. Mae bod yn onest wrth fwynhau ein gwaith wrth wraidd popeth a wnawn.



Gwawr Booth
Rheolwr Gyfarwyddwr



Jan Hart
Cyfarwyddwr Ansawdd



Clare Jeffries
Cyfarwyddwr
Gweithrediadau



CYNNWYS

| | |
|-------|---|
| 6 | Arweinyddiaeth a Rheolaeth |
| 7 | ILM Lefel 2 Dyfarniad a Thystysgrif mewn Sgiliau Arweinyddiaeth a Thîm |
| 8 | ILM Lefel 3 Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma mewn Rheolaeth |
| 9 | Prentisiaeth - ILM Lefel 3 Diploma mewn Rheolaeth |
| 10 | ILM Lefel 4 Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth |
| 11 | Prentisiaeth Uwch - ILM Lefel 4 Diploma mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth |
| 12 | ILM Lefel 5 Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth |
| 13 | Prentisiaeth Uwch - ILM Lefel 5 Diploma mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth |
| 14 | ILM Lefel 7 Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth |
| 15 | ILM Lefel 7 Diploma NVQ mewn Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Strategol |
| 16 | Chwaraeon |
| 17 | Lefel 2 Tystysgrif mewn Arwain Gweithgareddau - Llwybr Hyfforddi |
| 18 | Lefel 3 Diploma Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion |
| 19 | Hyfforddi a Mentora |
| 20 | ILM Lefel 2 Dyfarniad mewn Sgiliau Mentora Effeithiol |
| 21 | ILM Lefel 3 Dyfarniad a Thystysgrif mewn Hyfforddi Effeithiol |
| 22 | ILM Lefel 3 Dyfarniad a Thystysgrif mewn Mentora Effeithiol |
| 23 | ILM Lefel 3 Tystysgrif mewn Hyfforddi a Mentora Effeithiol |
| 24 | ILM Lefel 5 Tystysgrif a Diploma mewn Hyfforddi a Mentora Effeithiol |
| 25 | Dysgu a Datblygiad |
| 26 | City and Guilds Lefel 3 Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant |
| 27 | City and Guilds Lefel 3 Dyfarniad a Thystysgrif mewn Asesu a Sicrhau Ansawdd |
| 28 | City and Guilds Lefel 4 Cymwysterau Dyfarniad a Thystysgrif mewn Sicrhau Ansawdd |
| 29 | Cyrsiau Byr a Phwrpasol |
| 30-33 | Manylion Cyrsiau Byr a phrisiau |
| 34 | Sut i wneud cais |

YN EICH
ARWAIN CHI I'R
MAN LLE'R
HOFFECH
FOD.

DEALL Y CYMWYSTERAU

Mae gan bob uned yn ein cymwysterau werth o ran credydau. Nifer y credydau y byddwch yn eu cwblhau fydd yn pennu a fydd eich cymhwyster yn Ddyfarniad, yn Dystysgrif neu'n Ddiploma.

| | |
|---------------|---|
| Dyfarniad | Nifer y credydau sy'n ofynnol: 5-12 (Tua) |
| Tystysgrif | Nifer y credydau sy'n ofynnol: 13-36 (Tua) |
| Diploma | Nifer y credydau sy'n ofynnol: 37+ |
| Dim Achrediad | Cyfleoedd i Ddysgu a Datblygu - o gyrsiau byr i raglenni sy'n fwy hirdymor. |

CYLLID

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Prentisiaethau. Caiff y meini prawf cymhwystra eu hesbonio yn nes ymlaen ymhob adran yn y prospectws. Chwiliwch am yr eicon i weld pa gyrsiau sy'n cael eu hariannu'n llawn.



ARIENNIR YN LLAWN GAN LYWODRAETH CYMRU

GYFRWNG Y GYMRAEG

Â ninnau'n gwmni sy'n falch o fod yn ddwyieithog, gallwn gyflwyno'r cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r holl adnoddau y mae Portal yn eu creu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, lle nad oes fersiwn cywerth ar gael yn y Gymraeg, mae'r gwefannau a'r deunyddiau darllen cyhoeddedig ar gael trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

DEALL Y LEFELAU

| | | |
|----------------|--|--|
| LEFEL 2 | <p>Mae'r cymwysterau yn gymharol â:</p> <ul style="list-style-type: none">• CSE• TGAU neu Lefel O• Prentisiaeth Sylfaen | <p>Rydym yn cynnig cymwysterau Lefel 2 mewn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sgiliau Hanfodol• Sgiliau Arwain Tîm• Sgiliau Arweinyddiaeth• Mentora• Arwain Gweithgaredd |
| LEFEL 3 | <p>Mae'r cymwysterau yn gymharol â:</p> <ul style="list-style-type: none">• Lefel A/AS• Prentisiaeth• Diploma Bagloriaeth Ryngwladol | <p>Rydym yn cynnig cymwysterau Lefel 3 mewn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sgiliau Hanfodol• Arweinyddiaeth a Rheolaeth• Hyfforddi a Mentora• Tystysgrif mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol• Cefnogi Cyflywyno Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion• Dyfarniad mewn Addysg a Hyfforddiant |
| LEFEL 4 | <p>Mae'r cymwysterau yn gymharol â:</p> <ul style="list-style-type: none">• Tystysgrif mewn Addysg Uwch (CertHE)• Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) | <p>Rydym yn cynnig cymwysterau Lefel 4 mewn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Arweinyddiaeth a Rheolaeth• Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu yn Fewnol |
| LEFEL 5 | <p>Mae'r cymwysterau yn gymharol â:</p> <ul style="list-style-type: none">• Diploma Addysg Uwch (DipHE)• Gradd Sylfaen• Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) | <p>Rydym yn cynnig cymwysterau Lefel 5 mewn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Arweinyddiaeth a Rheolaeth• Hyfforddi a Mentora |
| LEFEL 7 | <p>Mae cymwysterau lefel 7 cyfwerth a neu yn cyfrannu credydau tuag at:</p> <ul style="list-style-type: none">• Radd Meistr• Tystysgrif i Raddedigion• Diploma i Raddedigion | <p>Rydym yn cynnig cymwysterau Lefel 7 mewn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Arweinyddiaeth a Rheolaeth |

Datblygwch eich potensial i Arwain a Rheoli gydag un o'n Cymwysterau

Nod ein cymwysterau Arweinyddiaeth a Rheolaeth yw datblygu eich sgiliau rheoli pobl, systemau a phrosesau, Byddant yn rhoi i chi'r wybodaeth, yr offerynnau a'r technegau i gyfoethogi'ch cymhwysedd a'ch gyrfa fel arweinydd a rheolwr.

Llwybr Arweinyddiaeth a Rheolaeth



Gwybodaeth Ychwanegol ynghylch Prentisiaethau a Ariennir gan Lywodraeth Cymru

CYMHWYSTRA

Ar gyfer y rhaglenni prentisiaeth yn yr adran hon, mae'r rheolau isod ynghylch cymhwystra yn berthnasol;

Unigolion sydd:

- Â'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig
- Â contract cyflogaeth am o leiaf 16 awr yr wythnos
- Heb fod yn dilyn unrhyw raglenni eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Heb fod â gradd yn yr un maes astudiaeth â rhaglen y brentisiaeth

Os ydych rhwng 16 a 24 oed ac yn cyflwyno cais ar gyfer:

- Lefel 3 - Bydd gofyn i chi fod wedi eich cyflogi am lai na 12 mis yn eich swydd bresennol onid ydych yn symud ymlaen yn syth o raglen lefel 2 i raglen lefel 3

Os ydych dros 25 oed ac yn cyflwyno cais ar gyfer:

- Lefel 3 - Bydd gofyn eich bod chi'n newydd i'ch swydd onid ydych yn symud ymlaen yn syth o raglen lefel 2 i raglen lefel 3.

Byddai gofyn i ni drafod eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch cyfnod yn y rôl.

SGILIAU HANFODOL

Mae'r cyrsiau Sgiliau Hanfodol canlynol yn angenrheidiol lle nad oes gan y dysgwr cymwysterau cyfwerth a'r lefelau a nodwyd:

- Lefel 2 neu 3 Cymhwyso Rhif
- Lefel 2 neu 3 Cyfathrebu
- Lefel 2 neu 3 Llythrennedd Digidol

ILM LEFEL 2 DYFARNIAD A THYSTYSGRIF MEWN SGILIAU ARWEINYDDIAETH A THÎM



Ysgol
Uwchradd Willows
Caerdydd

I bwy mae'r cymwysterau hwn?

Mae'r cymwysterau hyn yn ddelfrydol i arweinwyr tîm, a byddant yn eu helpu i ddod yn fwy effeithiol a hyderus yn eu rôl. Maent hefyd yn cefnogi arweinwyr tîm newydd neu ddarpar arweinwyr tîm - gan eu helpu i symud ymlaen o weithio mewn tîm i arwain tîm.

Buddion i Unigolion

- Dysgu sgiliau arwain a rheoli craidd
- Rhoi'r sgiliau hyn ar waith yn eich gweithle
- Gwella perfformiad eich tîm
- Ennill cymwysterau a gydnabyddir

Buddion i Gyflogwyr

- Arweinwyr tîm cymwys sy'n llawn ysgogiad
- Gwell cynhyrchiant
- Addasu'r cymwysterau hyn at anghenion yr unigolion a'r sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Aseu?

- Aseiniadau

Dyfarniad

Unedau Enghreifftiol

- Datblygu'ch Hun Fel Arweinydd Tîm
- Cynllunio a Monitro Gwaith
- Rheoli'ch Hun
- Deall Gwaith Tîm Effeithiol
- Datblygu Tîm y Gwaith
- Cyfathrebu yn y Gweithle

5 Mis

£487 (heb TAW)

Tystysgrif

Unedau Enghreifftiol

- Defnyddio Adnoddau'n Effeithiol ac yn Effeithlon yn y Gweithle
- Deall Newid yn y Gweithle
- Datrys Problemau a Gwneud Penderfyniadau
- Deall Arweinyddiaeth
- Deall Rheoli Straen yn y Gweithle
- Gosod Amcanion ar gyfer y Tîm yn y Gweithle

9 Mis

£757 (heb TAW)

ILM LEFEL 3 DYFARNIAD, TYSTYSGRIF A DIPLOMA MEWN RHEOLAETH

I bwy mae'r cymwysterau hyn?

Mae'r cymwysterau hyn yn ddelfrydol i unigolion sydd â chyfrifoldebau rheoli ond sydd ddim wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol, ac sydd o ddifrif ynghylch datblygu eu gallu. Maent yn cefnogi'n benodol arweinwyr tîm sy'n ceisio symud i fyny i lefel nesaf rheolaeth, a rheolwyr sydd ag angen arwain pobl trwy newid sefydliadol, toriadau i'r gyllideb neu bwysau o fath arall.

Buddion i Unigolion

- Ennill ystod o sgiliau rheoli allweddol
- Adeiladu ar allu arweinwyr i ysgogi ac ymgysylltu â thimau ac i reoli cydberthnasau'n hyderus
- Ennill cymhwyster a gydnabyddir am eich datblygiad personol

Buddion i Gyflogwyr

- Rheolwyr llinell-gyntaf effeithiol a hyderus
- Gwell cydberthnasau a chyfathrebu mewn timau
- Rheolwyr ag offerynnau i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd eu hunain

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

- Aseiniadau



Dreigiau
Gwent
Casnewydd

Dyfarniad

Unedau Enghreifftiol

- Datrys Problemau a Gwneud Penderfyniadau
- Cynllunio a Dyrannu Gwaith
- Datblygu'ch Hun ac Eraill
- Deall Sut i Sefydlu Tîm Effeithiol

5 Mis

£600 (heb TAW)

Tystysgrif

Unedau Enghreifftiol

- Deall Arweinyddiaeth
- Arwain Tîm a'i Ysgogi'n Effeithiol
- Deall Sut i Ysgogi i Wella Perfformiad
- Deall Rheoli Straen yn y Gweithle

9 Mis

£890 (heb TAW)

Diploma

Unedau Enghreifftiol

- Deall y Rôl Rheoli er mwyn Rheoli Perfformiad yn Well
- Datblygu Eich Arddulliau Arwain
- Datblygu Tîm y Gwaith
- Dirprwyo Awdurdod yn y Gweithle

12 Mis

£1249 (heb TAW)



PRENTISIAETH - ILM LEFEL 3 DIPLOMA MEWN RHEOLAETH

I bwy mae'r cymhwyster?

Mae'r Diploma Lefel 3 mewn Rheolaeth yn cynnwys unedau gwybodaeth a chymhwysedd. Mae'n addas i unigolion sydd â rhywfaint o brofiad blaenorol mewn rôl arwain tîm neu reoli, ond nid yw hwn yn ofyniad ffurfiol. Bydd y cymhwyster hwn yn adeiladu ac yn datblygu sgiliau newydd er mwyn cyfoethogi eu gyrfa fel rheolwr.

Buddion i Unigolion

- Dealltwriaeth fanwl o'r hyn a ddisgwylir gan reolwr
- Rheoli'ch tîm yn effeithiol
- Ennill cymhwyster a gydnabyddir am eich datblygiad personol

Buddion i Gyflogwyr

- Rheolwyr llinell-gyntaf â chymhwysedd profedig yn y rôl
- Dewis eang o unedau dewisol er mwyn teilwra'r cymhwyster at anghenion dysgu a datblygiad eich sefydliad
- Hybu diwylliant o ddysgu a datblygiad ar draws y sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

Dulliau Cymysg a allai gynnwys:

- Gwaith ysgrifenedig
- Trafodaeth broffesiynol
- Cwestiynau ac atebion
- Arsylwi ar berfformiad
- Cynnyrch gwaith



Jonathan Watkins-Stuart

Arweinydd Tîm ac Aseswr Portal

Diploma

Unedau Mandadol

- Rheoli Datblygiad Personol a Phroffesiynol
- Rheoli Perfformiad Tîm
- Egwyddorion Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Egwyddorion Rheoli Pobl
- Principles of Business
- Egwyddorion Busnes

Unedau Dewisol

- Rheoli Perfformiad Unigolion
- Datblygu a Gweithredu Cynllun Gweithredu
- Datblygu Cydberthnasau Gweithio gyda Rhanddeiliaid
- Datblygu Cyflwyniad
- Rhoi Cyflwyniad
- Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaion
- Annog Dysgu a Datblygiad

Sgiliau Hanfodol Lefel 2 neu 3 CRh, Cyfathrebu a Llythrennedd Digidol

- Dull Asesu: Tasgau a phrawf dan reolaeth

17 Mis

Ariennir yn Llawn

ILM LEFEL 4 DYFARNIAD, TYSTYSGRIF A DIPLOMA MEWN **ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**

I bwy mae'r cymhwysterau hyn?

Cynlluniwyd y cymwysterau hyn ar gyfer rheolwyr canol newydd a darpar reolwyr canol. Mae'r cymwysterau hyn yn gymorth i ddysgwyr fynd i'r afael â'u rôl, ennill gwybodaeth gynhwysfawr am fusnes, a datblygu'r sgiliau technegol y mae arnynt eu hangen er mwyn arwain yn effeithiol ar y lefel hon.

Buddion i Unigolion

- Atgyfnerthu eich sgiliau rheoli a'ch profiad o reoli
- Datblygu'r gallu a'r ymwybyddiaeth bersonol y mae arnoch eu hangen er mwyn bod yn arweinydd
- Ennill cymhwyster a gydnabyddir

Buddion i Gyflogwyr

- Rheolwyr canol â dealltwriaeth flaengar o'u rôl a'u swyddogaeth yn eich sefydliad
- Rheolwyr sy'n gallu asesu a gwella'u harddulliau arwain a'u hymddygiadau eu hunain
- Dewis hyblyg o unedau er mwyn i chi allu teilwra'r cymhwyster i gau bylchau sgiliau yn eich sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

- Aseiniadau



Ysgol
Uwchradd
Willows
Caerdydd

Dyfarniad

Unedau Enghreifftiol

- Deall y Rôl Rheoli er mwyn Gwella Perfformiad
- Cynllunio ac Arwain Gweithgaredd Tîm Cymhleth
- Datblygu eich Arddull Arwain

5 Mis

£687 (heb TAW)

Tystysgrif

Unedau Enghreifftiol

- Datblygu Pobl yn y Gweithle
- Rheoli Gweithwyr sy'n Gweithio o Bell
- Datblygu Gwydnwch Meddyliol Unigolion
- Rheoli Prosiectau yn y Sefydliad

9 Mis

£1131 (heb TAW)

Diploma

Unedau Enghreifftiol

- Asesu eich Gallu i Arwain a'ch Perfformiad
- Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid
- Rheoli Risgiau yn y Gweithle
- Deall Diwylliant y Sefydliad a'i Gynnwys

12 Mis

£1454 (heb TAW)



PRENTISIAETH UWCH - ILM LEFEL 4 DIPLOMA MEWN ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

I bwy mae'r cymhwyster hyn?

Mae'r Diploma Lefel 4 yn rhaglen Brentisiaeth Uwch sy'n anelu at ddatblygu eich sgiliau a'ch technegau rheoli ac arwain trwy ddull asesu cymysg. Mae'n rhoi i chi gymhwyster sy'n uchel ei barch mewn addysg ac sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar draws pob sector mewn diwydiant.

Buddion i Unigolion

- Datblygu eich gallu i arwain, ysgogi ac ysbrydoli eraill
- Cymhwyster achrededig y gellir ei drosglwyddo ar draws proffesiynau niferus
- Dull dysgu hyblyg, sy'n gweithio o'ch amgylch chi a'ch ymrwymadau

Buddion i Gyflogwyr

- Datblygir sgiliau rheoli ac arwain y cyflogai
- Offeryn datblygiad personol gwerthfawr sy'n cynnig buddion clir i'r rheiny sy'n dymuno datblygu eu hunain neu sydd eisieu symud ymlaen yn eu gyrfa
- Y gallu i addasu'r cymhwyster hwn at anghenion dysgu a datblygiad eich sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

Dulliau cymysg a allai gynnwys:

- Gwaith ysgrifenedig
- Trafodaeth broffesiynol
- Cwestiynau ac atebion
- Arsylwi ar berfformiad
- Cynnyrch gwaith

Bydd y profiad dw i wedi ei gael wrth astudio ar gyfer y cymhwyster hwn o fudd i fy sefydliad y tro nesaf i mi gyflwyno syniadau arloesol neu newidiadau gweithredol.

Mathew Evans
Ysgol St Cyres

Diploma

NVQ - Eifen Ymarferol

- Datblygu a Gweithredu Cynllun Gweithredu
- Arwain a Rheoli
- Datblygu Cydberthnasau Gweithio gyda Rhanddeiliaid
- Rheoli Datblygiad Personol a Phroffesiynol
- Rheoli Datblygiad Personol

VRQ - Eifen Ddamcaniaethol

- Rheoli a Gweithredu Newid yn y Gweithle
- Deall y Rôl Rheolaeth er mwyn Gwella Rheoli Perfformiad yn Well
- Rheoli Straen a Gwrthdaro o fewn y Sefydliad
- Deall a Datblygu Perthnasau yn y Gweithle
- Rheoli Gwelliant
- Datblygu Meddwl Beirniadol

Sgiliau Hanfodol Lefel 2 neu 3 CRh, Cyfathrebu a Llythrennedd Digidol

- Dull Asesu: Tasgau a phrawf dan reolaeth

17 Mis

Ariennir yn Llawn

ILM LEFEL 5 DYFARNIAD, TYSTYSGRIF A DIPLOMA MEWN ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

I bwy mae'r cymwysterau hyn?

Cynlluniwyd y cymwysterau hyn ar gyfer rheolwyr canol sydd newydd ddechrau yn y rôl, ac mae'n gymorth iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u profiad, gwella perfformiad a pharatoi at gyfrifoldebau uwch-reolwr.

Buddion i Unigolion

- Defnyddio technegau rheoli craidd er mwyn gyrru canlyniadau gwell
- Datblygu'r gallu i arwain, ysgogi ac ysbrydoli
- Arwain yn strategol yn ogystal â rheoli o ddydd i ddydd
- Meincodi'ch sgiliau rheoli
- Codi'ch proffil yn eich sefydliad

Buddion i Gyflogwyr

- Annog meddwl strategol ar y lefel reoli hon er mwyn meithrin gwelliant yn y busnes
- Ymgysylltu rheolwyr canol â hyfforddiant a datblygiad – cynlluniwyd y cymwysterau hyn i ddarparu buddion clir, mesuradwy ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n frwdfrydig ynghylch eu gyrfa
- Dewis hyblyg o unedau er mwyn i chi allu addasu'r cymhwyster i gau'r bwlch sgiliau yn eich sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

- Aseiniadau



Dyfarniad

Unedau Enghreifftiol

- Rheoli Gwelliant
- Llunio Achos Ariannol
- Datblygu Meddwl Beirniadol
- Arwain Arloesi a Newid

5 Mis

£708 (heb TAW)

Tystysgrif

Unedau Enghreifftiol

- Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid
- Rheoli Gweithwyr sy'n Gweithio o Bell
- Rheoli Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd
- Rheoli Prosiectau yn y Sefydliad

9 Mis

£1285 (heb TAW)

Diploma

Unedau Enghreifftiol

- Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gweithle
- Rheoli'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich Hun
- Gweithio Mewn Partneriaeth
- Datblygu eich Gallu i Arwain gan Ddefnyddio Dysgu Gweithredol

12 Mis

£1620 (heb TAW)



PRENTISIAETH UWCH - ILM LEFEL 5 DIPLOMA MEWN ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae'r Diploma Lefel 5 yn rhaglen Brentisiaeth Uwch sy'n anelu at ddatblygu'ch sgiliau a'ch technegau rheoli ac arwain trwy ddull asesu cymysg. Mae'n rhoi i chi gymhwyster sy'n uchel ei barch mewn addysg ac sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar draws pob sector mewn diwydiant.

Buddion i Unigolion

- Datblygu'ch gallu i arwain, ysgogi ac ysbrydoli eraill
- Cymhwyster achrededig y gellir ei drosglwyddo ar draws proffesiynau niferus
- Dull dysgu hyblyg, sy'n gweithio o'ch amgylch chi a'ch ymrwymadau

Buddion i Gyflogwyr

- Datblygir sgiliau rheoli ac arwain y cyflogai
- Offeryn datblygiad personol gwerthfawr sy'n cynnig buddion clir i'r rheiny sy'n dymuno datblygu eu hunain neu sydd eisiau symud ymlaen yn eu gyrfa
- Y gallu i addasu'r cymhwyster hwn at anghenion dysgu a datblygiad eich sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

Dulliau cymysg a allai gynnwys:

- Gwaith ysgrifenedig
- Trafodaeth broffesiynol
- Cwestiynau ac atebion
- Arsylwi ar berfformiad
- Cynnyrch gwaith



Mae'r cwrs Arweinyddiaeth a Rheolaeth a gynigir gan Hyfforddiant Portal wedi bod yn gymorth mawr i fy natblygiad proffesiynol parhaus ac yn sicr mi fydd yn gymorth i hyrwyddo fy nghyfleoedd gyrfa.

Graham Stephens,
Adapt



Diploma

NVQ - Eifen Ymarferol

- Rheoli Newid Strategol
- Datblygu Proses Fusnes
- Cyfrannu at Ddatblygiad Cynllun Strategol
- Arwain a Rheoli

VRQ - Eifen Ddamcaniaethol

- Datblygu Meddwl Beirniadol
- Arwain Arloesi a Newid
- Rheoli Gwelliant
- Llunio Achos Ariannol
- Deall y Rôl Rheoli er mwyn Gwella Perfformiad Rheoli
- Rheoli Straen a Gwrthdaro
- Rheoli eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus Eich Hun

Sgiliau Hanfodol Lefel 2 neu 3 CRh, Cyfathrebu a Llythrennedd Digidol

- Dull Asesu: Tasgau a phrawf dan reolaeth

21 Mis

Ariennir yn Llawn

ILM LEFEL 7 DYFARNIAD, TYSTYSGRIF A DIPLOMA MEWN ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

I bwy mae'r cymwysterau hyn?

Cynlluniwyd y cymwysterau hyn i alluogi uwch-reolwyr a darpar uwch-reolwyr, sy'n cydnabod bod yn rhaid iddynt fodloni rhanddeiliaid amrywiol ac sydd eisiau buddsoddi yn eu brand personol eu hunain, i gael effaith fel sefydliad ac fel unigolion, trwy ymgysylltu ar lefel uchel ag arfer, arloesi a meddwl beirniadol.

Buddion i Unigolion

- Gwybod sut i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan ymholiad i ddatblygu eich gallu fel arweinydd a rheolwr
- Datblygu a chyfoethogi eich brand personol
- Datblygu, gweithredu a gwerthuso achosion busnes strategol, ar lefel uchel
- Datblygu gwybodaeth a sgiliau er mwyn cefnogi eich dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol

Buddion i Gyflogwyr

- Cyfuno datblygiad arweinyddiaeth a phrosiectau 'gwaith go iawn'
- Uwch-arweinwyr ac uwch-reolwyr sydd â'r gallu i feddwl ac i weithredu'n strategol
- Uwch-arweinwyr ac uwch-reolwyr sy'n gwneud penderfyniadau gwybodus ar sail tystiolaeth
- Staff sydd wedi eu hysgogi ac sy'n gallu creu a chynnal diwylliant o berfformio ar lefel uchel
- Aelodau o'r uwch-dîm sy'n hunanymwybodol ac yn cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu eu hunain

Sut y caiff y Cymhwyster ei Aseu?

- Aseiniadau



RSD Gofal
Cymdeithasol
Abertawe

Dyfarniad

Unedau Enghreifftiol

- Datblygu'r Gallu i Arwain ac i Reoli'n Strategol

5 Mis
£957 (heb TAW)

Tystysgrif

Unedau Enghreifftiol

- Datblygu'r Gallu i Arwain ac i Reoli trwy Ymholiad

9 Mis
£1466 (heb TAW)

Diploma

Unedau Enghreifftiol

- Datblygu'r Gallu i Arwain ac i Reoli trwy Ymholiad
- Datblygu Achos Busnes ar Lefel Uchel
- Datblygu a Chynnal Diwylliant o Berfformio ar Lefel Uchel a Gwneud y Gorau o Adnoddau

12 Mis
£2654 (heb TAW)

ILM LEFEL 7 DIPLOMA NVQ MEWN RHEOLAETH AC ARWEINYDDIAETH STRATEGOL

I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymhwyster hwn yn ddelfrydol i uwch-reolwyr neu'r rheiny sydd ar fin cymryd eu cam cyntaf i mewn i uwch-reoli. Craidd y cymhwyster yw datblygu'r sgiliau arwain a rheoli strategol y mae eu hangen er mwyn llwyddo ar y lefel uchel hon.

Buddion i Unigolion

- Datblygu sgiliau cynllunio busnes strategol
- Meithrin dealltwriaeth fanwl o'r hyn sy'n ddisgwylidig gan uwch-arweinwyr ac uwch-reolwyr
- Dysgu sut i arwain yn strategol ac i werthuso'ch effaith ar eich sefydliad
- Ennill cymhwyster a gydnabyddir am eich datblygiad personol

Buddion i Gyflogwyr

- Uwch-reolwyr â'r gallu i feddwl ac i weithredu'n strategol
- Hybu diwylliant o ddysgu a datblygu ar draws y sefydliad
- Dewis hyblyg o unedau er mwyn i chi allu addasu'r cymhwyster i gau'r bwlch sgiliau yn eich sefydliad

Sut y caiff y Cymhwyster ei Asesu?

Dulliau cymysg a allai gynnwys:

- Gwaith ysgrifenedig
- Trafodaeth broffesiynol
- Cwestiynau ac atebion
- Arsylwi ar berfformiad
- Cynnyrch gwaith

“Diolch i'r addysg a'r gefnogaeth a gefais gan Portal a'r aseswr arbennig oedd gen i, dw i nawr yn gallu defnyddio prosesau busnes a meddwl strategol ochr yn ochr, ac roedd y gwahaniaeth a welais ar unwaith yn y ffordd yr oeddwn i'n gweithio o ddydd i ddydd, yn anhygoel.

Kathy Pritchard,
GreenThumb

Diploma

Unedau Enghreifftiol

- Datblygu Cynllun Busnes Strategol
- Gweithredu Cynllun Busnes Strategol
- Rhoi Arweiniad a Chyfeiriad Strategol
- Datblygu Strategaeth Fusnes
- Dylunio Prosesau Busnes
- Llunio Siâp Diwylliant a Gwerthoedd y Sefydliad
- Arwain Datblygiad Strategaeth Ansawdd
- Gwneud y Gorau o'r Defnydd o Dechnoleg
- Sicrhau Adnoddau Ariannol

12 - 15 Mis

£2654 (heb TAW)

Dewch i ddatgloi eich gwir botensial gydag un o'n Cymwysterau Chwaraeon.

Achredir cyfres Portal o gymwysterau Chwaraeon gan 1st4Sport ac maent yn cynnig cyfleoedd datblygiad i unigolion sy'n arwain gweithgareddau corfforol ac yn cyfrannu atynt, a hynny mewn ysgolion ac mewn lleoliadau preifat.

Mae'r gyfres hon o gymwysterau yn cynnig rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn amodol ar gymhwystra.

Opsiynau ar gyfer Cyrsiau Chwaraeon



Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer ein Cyrsiau Chwaraeon a Ariennir gan Lywodraeth Cymru

CYMHWYSTRA

Ar gyfer y rhaglenni prentisiaeth yn yr adran hon, mae'r rheolau isod ynghylch cymhwystra yn berthnasol.

Unigolion sydd:

- A'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig
- A chontract cyflogaeth am o leiaf 16 awr yr wythnos
- Heb fod yn dilyn unrhyw raglenni eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru
- Heb radd yn yr un maes astudiaeth â rhaglen y brentisiaeth

Byddai gofyn i ni drafod eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch cyfnod yn y rôl.

SGILIAU HANFODOL

Mae'r cyrsiau Sgiliau Hanfodol canlynol yn angenrheidiol lle nad oes gan y dysgwr cymwysterau cyfwerth a'r lefelau a nodwyd:

- Lefel 2 neu 3 Cymhwyso Rhif
- Lefel 2 neu 3 Cyfathrebu
- Lefel 2 neu 3 Llythrennedd Digidol



LEFEL 2 TYSTYSGRIF MEWN ARWAIN GWEITHGAREDDAU - LLWYBR HYFFORDDI

I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymhwyster hwn yn addas i:

- Ddysgwyr sy'n gweithio mewn rôl arwain gweithgareddau berthnasol,
- Dysgwyr mewn amgylchedd hyfforddi e.e. hyfforddwyr chwaraeon ar lawr gwlad, gweithredwyr hamdden, swyddogion chwaraeon cymunedol, hyfforddwyr clybiau ayb,
- Dysgwyr sy'n dymuno hyfforddi.

Mae wedi ei gynllunio ar gyfer y rheiny sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio sesiynau hyfforddi cysylltiedig a chynyddol, eu darparu a'u gwerthuso.

Beth mae'n cwmpasu?

Bydd y dysgwr yn:

- Canolbwyntio ar sgiliau a chymwyseddau sy'n angenrheidiol er mwyn cynllunio, cyflwyno ac adolygu cyfres o sesiynau hyfforddi chwaraeon a gweithgareddau corfforol cysylltiedig a chynyddol, naill ai'n gweithio'n annibynnol neu'n rhan o dîm hyfforddi
- Cael cyflwyniad i egwyddorion ac arferion arfer diogel, moesegol ac effeithiol wrth arwain sesiynau gweithgaredd, er mwyn cadarnhau cymhwysedd i'r safon ofynnol mewn amgylchedd chwaraeon priodol.
- Datblygu dealltwriaeth o'i hawliau a'i gyfrifoldebau fel cyflogai yn y sector

Sut y caiff y Cymhwyster ei Aseu?

- Gweithgareddau ysgrifenedig a llafar
- Arsylwi
- Tystiolaeth o'r gweithle



**Prosiect
Fit and Fed**
Sir Casnewydd

Tystysgrif

Arwain Gweithgareddau Unedau Enghreifftiol

- Cefnogi Gwaith eich Tîm a'ch Sefydliad
- Cefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Hamdden Egnïol
- Arwain Sesiynau Gweithgaredd
- Paratoi at Sesiynau Gweithgaredd
- Dod â Sesiynau Gweithgaredd i Derfyn a'u Hadolygu

Hyfforddi Unedau Enghreifftiol

- Rôl yr Hyfforddwr
- Cynllunio cyfres o Sesiynau Hyfforddi
- Cyflwyno cyfres o Sesiynau Hyfforddi
- Adolygu cyfres o Sesiynau Hyfforddi
- Gofynion Hyfforddi Technegol ar gyfer Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol

Yn ogystal â'r uchod, bydd angen i ddysgwyr gwblhau;

- Dyfarniad mewn Ymwybyddiaeth o Gyflogaeth mewn Hamdden Egnïol a Dysgu
- Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu lle'n Berthnasol

15 Mis
Ariennir yn Llawn



DIPLOMA LEFEL 3 MEWN CYFLWYNO GWEITHGAREDD CORFFOROL A CHWARAEON O FEWN YSGOLION

I bwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n cefnogi cyflwyno addysg gorfforol a gweithgareddau chwaraeon mewn ysgolion. Pobol sy'n:

- Hyfforddwy'r chwaraeon mewn ysgolion
- Cynorthwywyr addysgu lefel uwch
- Cynorthwywyr dysgu
- Swyddogion datblygu chwaraeon
- Y rhai sy'n gyfrifol am weithgareddau corfforol a lles mewn ysgolion
- Gweithwyr ieuencid mewn ysgolion

Beth mae'n cwmpasu?

Bydd y dysgwr yn:

- Datblygu gwybodaeth a sgiliau er mwyn arwain yn annibynnol y gwaith o gyflwyno rhaglenni AG a chwaraeon mewn amgylchedd ysgol
- Datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy gwblhau Cymwysterau Sgiliau Hanfodol

Sut y caiff y Cymhwyster ei Aseu?

- Gweithgareddau ysgrifenedig a llafar
- Arsylwadau
- Tystiolaeth o'r gweithle
- Trafodaethau gyda'ch aseswr



**Prosiect
Fit and Fed**
Sir Casnewydd

Diploma

Unedau Enghreifftiol

- Amgylcheddau Dysgu Cynhwysol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
- Modelau a Pharthau Datblygiad Plant
- Darparu Amgylcheddau Diogel i Blant a Phobl Ifanc
- Datblygu Perthnasoedd O Fewn Cymuned yr Ysgol
- Ysgolion a'u Cymunedau

Yn ogystal â'r uchod, bydd angen i ddysgwyr gwblhau;

- Dyfarniad mewn Ymwybyddiaeth o Gyflogaeth mewn Hamdden Egniol a Dysgu
- Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwysio Rhif
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu lle'n Berthnasol

18 - 21 Mis
Ariennir yn Llawn

Dewch i ddatgloi eich gwir botensial gydag un o'n Cymwysterau Hyfforddi a Mentora.

Mae'r cymwysterau Hyfforddi a Mentora a achredir gan ILM ar gyfer y rheiny sy'n dymuno datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn deall mentora a hyfforddi a'u hymarfer yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae'r gyfres yn cynnig rhaglenni sy'n addas i ddysgwyr ar bob lefel, o'r rheiny sy'n dechrau arni fel hyfforddwr neu fentor i'r rheiny sydd â chyfrifoldeb sylweddol dros hyfforddi a mentora effeithiol yn rhan o'u rôl o ddydd i ddydd.

Llwybr Hyfforddi a Mentora



Bydd ein cymwysterau Hyfforddi a Mentora yn cyfoethogi'ch sgiliau er mwyn eich galluogi i ddatblygu'r bobl yr ydych yn eu hyfforddi a/neu fentora. Fel Hyfforddwr/Mentor proffesiynol mae arnoch angen set unigryw o sgiliau, er enghraifft:

- empathi
- creadigedd
- chwilfrydedd
- greddf

